

## **CYNGOR SIR Y FFLINT**

**11 MEDI 2019**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mercher, 11 Medi 2019.

### **YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Rita Johnson, Paul Johnson, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

### **YMDDIHEURIADAU:**

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Derek Butler, Ron Davies, Andy Dunbobbin, George Hardcastle, a Christine Jones

### **HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd; Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Etholiadol; Swyddogion y Gwasanaethau Democraidaidd a'r Cynghorydd y Parchedig Daniel Stroud ar gyfer gweddïau.

## **33. CYFLWYNIADAU**

Prentis Sir y Fflint, Francesca Sciarrillo – a wobrwyyd yn Ddysgwr Cymraeg y Flwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd 2019.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Francesca i'r cyfarfod a chyfeiriodd at ei chysylltiadau lleol. Llongyfarchodd Francesca ar ei chyflawniad eithriadol a gwahoddod y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor i ddweud gair pellach o gydnabyddiaeth ar ran y Cyngor.

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod Francesca wedi graddio o gynllun prentisiaeth y Cyngor, a dechreuodd ei phrentisiaeth Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus tra oedd yn gweithio gyda Hamdden a Llyfrgelloedd Aura y llynedd. Llongyfarchodd Francesca ar ei Gwobr ac am fod yn benderfynol o ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg drwy Goleg Cambria, a'r cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael gyda Hamdden a Llyfrgelloedd Aura.

Roedd y Cyngorwyr Ian Roberts hefyd yn llongyfarch Francesca ar ei gwobr, a dywedodd ei bod yn enghraifft neilltuol o'r hyn y gellid ei gyflawni gan

unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg, a thrwy hynny gyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Diolchodd Francesca i'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Roberts am eu geiriau caredig. Diolchodd hefyd i Hamdden a Llyfrgelloedd Aura a'r Tîm Datblygu Dysgu am y cymorth a'r anogaeth a roddwyd iddi. Gan siarad am ei phrofiad personol, dywedodd nad oedd byw yn Sir y Fflint, ar ffin Cymru â Lloegr, yn unrhyw rwystr i ddysgu'r Gymraeg, ac fe'i disgrifiodd fel iaith gyfoethog, ffyniannus a byw y dylid ei chofleidio yn Sir y Fflint.

#### **34. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2019.

##### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

#### **35. DATGAN CYSYLLTIAD**

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at Eitem 8 - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a dywedodd nad oedd gan Aelodau gysylltiad personol yn yr eitem ac y gallent gymryd rhan yn llawn. Cyfeiriodd hefyd at Eitem 9 - Cynllun Datblygu Lleol: Cadarnhau Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, ac eglurodd, gan y byddai'r eitem yn ystyried cwmpas ardaloedd chwilio ar gyfer ynni adnewyddadwy, na fyddai rhaid i Aelodau ddatgan cysylltiad onid oeddynt yn ymwneud â pherchnogaeth cwmni ynni adnewyddadwy.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

#### **36. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei gylchredeg i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod. Tynnodd y Cadeirydd sylw at nifer o ddigwyddiadau, a diolchodd i'r Cynghorydd Glyn Banks am ei wahoddiad i fynychu digwyddiad 'Planes Over Talacre – World War Two'; i'r Cynghorydd Sharps am drefnu ymweliad â Westbridge Furniture a Kingspan, Treffynnon; i'r Cynghorydd Hilary McGuill am y gwahoddiad i agoriad Cwt Sgowtiaid Mynydd Isa, sydd wedi'i adnewyddu; ac i'r Cynghorydd Ray Hughes am ei wahoddiad i'r Gwasanaeth Dinesig.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gyfeirio at ymddiswyddiad diweddar y Cynghorydd Mike Reece, a oedd wedi gwneud hynny am resymau personol. Dywedodd y bu'n Aelod mawr ei barch a gwerthfawr o'r Cyngor ac y byddid yn ei golli. Estynnodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau iddo ef a'i deulu.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts ei fod yn drueni fod y Cynghorydd Mike Reece wedi penderfynu ymddiswyddo fel Aelod o'r Cyngor. Talodd deyrnged i'r Cynghorydd Reece a dywedodd y bu'n gyfaill yn ogystal â chydweithiwr i sawl Aelod, ac i'r preswylwyr lleol yn ei Ward. Unwaith eto, fel y mynegodd y Cadeirydd, dywedodd y byddai colled fawr ar ôl y Cynghorydd Reece.

**37. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**38. DATGANIAD CYFRIFON 2018/19 A'R WYBODAETH ARIANNOL ATODOL I'R DATGANIAD CYFRIFON 2018/19**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Richard Harries a Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru, a Liz Thomas, Rheolwr Cyllid Strategol, Cyllid Corfforaethol.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2018/19 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn dilyn ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio cyn cyfarfod y Cyngor Sir heddiw. Eglurodd fod Datganiad Cyfrifon 2018/19, sy'n ymgorffori'r diwygiadau hynny a gytunwyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn ystod yr archwiliad, sydd i'w cymeradwyo gan yr Aelodau, wedi'i atodi fel atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd cyflwyniad SAC, mewn perthynas â'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i atodi fel atodiad 2. Yn ystod yr archwiliad, gwnaed diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon 2018/19 drafft a oedd wedi'u cytuno â SAC, ac mae'r rhai sy'n cael eu hadrodd o dan ISA 260 yn cael eu dangos yn atodiad 3. Atodwyd Llythyr Sylwadau Cyngor Sir y Fflint at SAC yn atodiad 4. Yn atodiad 5, atodwyd gwybodaeth ychwanegol i Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 ar gyflog cyfwerth ag amser llawn, sydd dros £60,000, fel y ceisiwyd drwy rybudd o gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 29 Ionawr 2013.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd unrhyw ddiwygiadau i'r adroddiad i'r Cyngor yn dilyn ystyried y Datganiad Cyfrifon a chanfyddiadau SAC gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor heddiw. Roedd nodyn ar gwestiynau blaenorol a godwyd gan Aelodau a'r ymatebion a ddarparwyd wedi ei gylchredeg i Aelodau, a bu cyfle drwy gydol y haf i Aelodau godi unrhyw faterion neu gwestiynau pellach. Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau ychwanegol.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod canfyddiadau cyffredinol SAC yn gadarnhaol ac yn adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Daeth SAC i'r casgliad bod y datganiadau cyllidol wedi'u llunio i safon dda a'u bod yn cael eu hategu gan bapurau gweithio cynhwysfawr. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd. Yr unig fater a gododd o'r archwiliad oedd hynny ynghylch y broses ar gyfer prisio asedau, ac fe gafodd y camau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hyn, ar y cyd â SAC, eu derbyn gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach heddiw.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai dyddiad cau statudol cynharach ar gyfer y cyfrifon o 2020-21 ar gyfer cyflwyno'r datganiadau ariannol blynyddol drafft. Ar y cyd â SAC, byddai'r Cyngor yn ymgymryd ag ymarfer yn 2019-20 ar gyfer llunio ei ddatganiadau ariannol drafft erbyn 31 Mai 2020 gyda SAC yn dod i gasgliad ar 31 Gorffennaf 2020.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod un diwygiad perthnasol ynghylch pensiynau'n codi o'r Archwiliad a'i fod yn ganlyniad i fater cenedlaethol

o'r enw dyfarniad achos cyfreithiol 'McCloud', a allai effeithio ar bob un o gynlluniau pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Eglurodd fod posibilrwydd ar hyn o bryd y bydd cyfraniadau cyflog athrawon yn cael eu heffeithio yn y dyfodol, ac roedd rhaid i'r Cyngor gyfrif am yr amcangyfrif gorau oherwydd y gwerth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw effaith ar y pryd ar gyllid y Cyngor, a byddid yn delio ag unrhyw effaith actwaraidd dros y tymor hwy drwy amrywiad actwaraidd a oedd yn pennu'r cyfraniadau cyflog dros nifer o flynyddoedd.

Roedd Mr Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol Cyngor Sir y Fflint, yn ategu y bu canfyddiadau cyffredinol SAC yn gadarnhaol a dywedodd fod y sefyllfa gorfforaethol yn dda. Soniodd am y gwaith caled a wnaed i gynhyrchu'r Cyfrifon a gwnaeth sylwadau ar safon uchel y papurau gweithio cynhwysfawr a ddarparwyd. Siaradodd hefyd am y berthynas weithio broffesiynol gadarnhaol a'r deialog adeiladol rhwng tîm SAC a'r Cyngor drwy gydol y broses archwilio. Cyflwynodd Mr Harries adroddiad ISA 260 drwy gyflwyniad a oedd yn cynnwys y prif bwyntiau a ganlyn:

- canfyddiadau cyffredinol
- cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol
- sefyllfa'r archwiliad
- materion sy'n codi o'r archwiliad
- annibyniaeth
- edrych i'r dyfodol

Wrth ddod â'i gyflwyniad i ben, diolchodd Mr Harries i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith ar y Cyfrifon a'r help a'r cymorth adeiladol a ddarparwyd drwy gydol y broses archwilio.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Mr Harries am ei gyflwyniad ac i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith. Dywedodd y byddai trafodaeth am sut fynd i'r afael â'r dyddiad cau statudol cynharach o 2020-21 yn cael ei chynnal gyda Phwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, a byddai'n cael ei argymhell i'r Cyngor y dylai'r gwaith o gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon yn y dyfodol gael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio, gydag Aelodau'n cael mynediad llawn i'r wybodaeth.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i wneud sylwadau ar adroddiad yn y wasg leol ar rwymedigaeth posibl a oedd yn codi o ddyfarniad 'McCloud'. Eglurodd mai mater cenedlaethol oedd hwn a rhoddodd sicrwydd, os oedd gan y Cyngor rwymedigaeth fel cyflogwr a oedd yn cyfrannu, yna byddai'n cael ei dalu drwy gyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn dros nifer o flynyddoedd, a byddai'n ychwanegiad cymharol fach at gyfraniadau cyflogwr blynyddol y Cyngor. Dywedodd fod y Cyngor wrthi'n cwblhau'r adolygiad actwaraidd presennol a gynhelir bob 3 blynedd, ac y byddai adroddiad am hyn yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach. I grynhoi, dywedodd na fyddai unrhyw benderfyniad o ran yr achos cyfreithiol yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor ar hyn o bryd neu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Tony Sharps y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm ar y cyflwyniad a safon uchel y Datganiad o Gyfrifon. Diolchodd y Cynghorydd Sharps i'r Prif Weithredwr am yr eglurhad a'r sicrwydd a roddwyd i'r Cyngor o ran goblygiadau posibl dyfarniad 'McCloud'. Gofynnodd a allai

Arweinydd y Cyngor ddarparu datganiad i'r wasg i sicrhau bod preswylwyr Sir y Fflint yn cael gwybodaeth ffeithiol gywir i dawelu unrhyw bryderon a all godi o ganlyniad i'r sylw yn y wasg leol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Ian Roberts y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei ddarparu i hysbysu'r cyhoedd am sefyllfa'r Cyngor ac i roi sicrwydd.

Diolchodd y Cynghorydd Chris Dolphin i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Cyllid Strategol, a'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled ac am lwyddo i gwblhau Datganiad Cyfrifon 2018/19 cyn y dyddiad cau statudol. Diolchodd y Cynghorydd Dolphin hefyd i Mr Harries a Mr Whiteley am eu gwaith ac am gyflwyno canfyddiadau SAC. Adroddodd y Cynghorydd Dolphin fod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Datganiad Cyfrifon 2018/19 mewn cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor Sir heddiw. Roedd swyddogion o SAC yn bresennol ac wedi cyflwyno ac egluro canfyddiadau eu harchwiliad i'r Pwyllgor. Roedd swyddogion cyllid wedi darparu diweddariad ar gynnydd o ran y cyfrifon drafft a oedd wedi'u hystyried yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio. Adolygwyd y diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon ac nid oedd unrhyw ddiwygiadau pellach ers cytuno ar y drafft. I gloi, cynigiodd y Cynghorydd Dolphin yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.

Wrth eilio'r cynnig, talodd y Cynghorydd Glyn Banks deyrnged i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith caled, a dymunodd yn dda iddynt gyda llwyddiant yr ymarfer a gynlluniwyd yn 2019-20 ar gyfer llunio'r datganiadau cyllidol drafft erbyn 31 Mai 2020. Diolchodd hefyd i Dîm SAC am eu gwaith caled a'u cymorth.

Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i bawb dan sylw am lwyddo i gwblhau'r gwaith ar Ddatganiad Cyfrifon 2018/19. Gofynnodd i Aelodau bleidleisio ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ac yn dilyn y bleidlais, fe gafodd yr argymhellion eu derbyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2018/19;
- (b) Cymeradwyo Llythyr Sylwadau – Cyngor Sir y Fflint; a
- (c) Nodi'r Wybodaeth Ariannol Ychwanegol i Ddatganiad Cyfrifon 2018/19.

#### **39. CYFLWYNIAD DEMOCRATIAETH LEOL A CHOMISIWN FFINIAU I GYMRU**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Richard Harries a Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru, a Liz Thomas, Rheolwr Cyllid Strategol, Cyllid Corfforaethol.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2018/19 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn dilyn ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio cyn cyfarfod y Cyngor Sir heddiw. Eglurodd fod Datganiad Cyfrifon 2018/19, sy'n ymgorffori'r diwygiadau hynny a gytunwyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn ystod yr archwiliad, sydd i'w cymeradwyo gan yr Aelodau, wedi'i atodi fel atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd cyflwyniad SAC, mewn perthynas â'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i atodi fel atodiad 2.

Yn ystod yr archwiliad, gwnaed diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon 2018/19 drafft a oedd wedi'u cytuno â SAC, ac mae'r rhai sy'n cael eu hadrodd o dan ISA 260 yn cael eu dangos yn atodiad 3. Atodwyd Llythyr Sylwadau Cyngor Sir y Fflint at SAC yn atodiad 4. Yn atodiad 5, atodwyd gwybodaeth ychwanegol i Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 ar gyflog cyfwerth ag amser llawn, sydd dros £60,000, fel y ceisiwyd drwy rybudd o gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 29 Ionawr 2013.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol nad oedd unrhyw ddiwygiadau i'r adroddiad i'r Cyngor yn dilyn ystyried y Datganiad Cyfrifon a chanfyddiadau SAC gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor heddiw. Roedd nodyn ar gwestiynau blaenorol a godwyd gan Aelodau a'r ymatebion a ddarparwyd wedi ei gylchredeg i Aelodau, a bu cyfle drwy gydol yr haf i Aelodau godi unrhyw faterion neu gwestiynau pellach. Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau ychwanegol.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod canfyddiadau cyffredinol SAC yn gadarnhaol ac yn adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Daeth SAC i'r casgliad bod y datganiadau cyllidol wedi'u llunio i safon dda a'u bod yn cael eu hategu gan bapurau gweithio cynhwysfawr. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd. Yr unig fater a gododd o'r archwiliad oedd hynny ynghylch y broses ar gyfer prisio asedau, ac fe gafodd y camau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hyn, ar y cyd â SAC, eu derbyn gan y Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach heddiw.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai dyddiad cau statudol cynharach ar gyfer y cyfrifon o 2020-21 ar gyfer cyflwyno'r datganiadau ariannol blynyddol drafft. Ar y cyd â SAC, byddai'r Cyngor yn ymgymryd ag ymarfer yn 2019-20 ar gyfer llunio ei ddatganiadau ariannol drafft erbyn 31 Mai 2020 gyda SAC yn dod i gasgliad ar 31 Gorffennaf 2020.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod un diwygiad perthnasol ynghylch pensiynau'n codi o'r Archwiliad a'i fod yn ganlyniad i fater cenedlaethol o'r enw dyfarniad achos cyfreithiol 'McCloud', a allai effeithio ar bob un o gynlluniau pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Eglurodd fod posibilrwydd ar hyn o bryd y bydd cyfraniadau cyflog athrawon yn cael eu heffeithio yn y dyfodol, ac roedd rhaid i'r Cyngor gyfrif am yr amcangyfrif gorau oherwydd y gwerth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw effaith ar y pryd ar gyllid y Cyngor, a byddid yn delio ag unrhyw effaith actwaraidd dros y tymor hwy drwy amrywiad actwaraidd a oedd yn pennu'r cyfraniadau cyflog dros nifer o flynyddoedd.

Roedd Mr Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol Cyngor Sir y Fflint, yn ategu y bu canfyddiadau cyffredinol SAC yn gadarnhaol a dywedodd fod y sefyllfa gorfforaethol yn dda. Soniodd am y gwaith caled a wnaed i gynhyrchu'r Cyfrifon a gwnaeth sylwadau ar safon uchel y papurau gweithio cynhwysfawr a ddarparwyd. Siaradodd hefyd am y berthynas weithio broffesiynol gadarnhaol a'r deialog adeiladol rhwng tîm SAC a'r Cyngor drwy gydol y broses archwilio. Cyflwynodd Mr Harries adroddiad ISA 260 drwy gyflwyniad a oedd yn cynnwys y prif bwyntiau a ganlyn:

- canfyddiadau cyffredinol
- cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol

- sefyllfa'r archwiliad
- materion sy'n codi o'r archwiliad
- annibyniaeth
- edrych i'r dyfodol

Wrth ddod â'i gyflwyniad i ben, diolchodd Mr Harries i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith ar y Cyfrifon a'r help a'r cymorth adeiladol a ddarparwyd drwy gydol y broses archwilio.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Mr Harries am ei gyflwyniad ac i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith. Dywedodd y byddai trafodaeth am sut i fynd i'r afael â'r dyddiad cau statudol cynharach o 2020-21 yn cael ei chynnal gyda Phwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, a byddai'n cael ei argymhell i'r Cyngor y dylai'r gwaith o gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon yn y dyfodol gael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio, gydag Aelodau'n cael mynediad llawn i'r wybodaeth.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i wneud sylwadau ar adroddiad yn y wasg leol ar rwymedigaeth posibl a oedd yn codi o ddyfarniad 'McCloud'. Eglurodd mai mater cenedlaethol oedd hwn a rhoddodd sicrwydd, os oedd gan y Cyngor rwymedigaeth fel cyflogwr a oedd yn cyfrannu, yna byddai'n cael ei dalu drwy gyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn dros nifer o flynyddoedd, a byddai'n ychwanegiad cymharol fach at gyfraniadau cyflogwr blynyddol y Cyngor. Dywedodd fod y Cyngor wrthi'n cwblhau'r adolygiad actwaraidd presennol a gynhelir bob 3 blynedd, ac y byddai adroddiad am hyn yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach. I grynhoi, dywedodd na fyddai unrhyw benderfyniad o ran yr achos cyfreithiol yn cael effaith ar gyllideb y Cyngor ar hyn o bryd neu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Tony Sharps y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm ar y cyflwyniad a safon uchel y Datganiad o Gyfrifon. Diolchodd y Cynghorydd Sharps i'r Prif Weithredwr am yr eglurhad a'r sicrwydd a roddwyd i'r Cyngor o ran goblygiadau posibl dyfarniad 'McCloud'. Gofynnodd a allai Arweinydd y Cyngor ddarparu datganiad i'r wasg i sicrhau bod preswylwyr Sir y Fflint yn cael gwybodaeth ffeithiol gywir i dawelu unrhyw bryderon a all godi o ganlyniad i'r sylw yn y wasg leol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Ian Roberts y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei ddarparu i hysbysu'r cyhoedd am sefyllfa'r Cyngor ac i roi sicrwydd.

Diolchodd y Cynghorydd Chris Dolphin i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Cyllid Strategol, a'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled ac am lwyddo i gwblhau Datganiad Cyfrifon 2018/19 cyn y dyddiad cau statudol. Diolchodd y Cynghorydd Dolphin hefyd i Mr Harries a Mr Whiteley am eu gwaith ac am gyflwyno canfyddiadau SAC. Adroddodd y Cynghorydd Dolphin fod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Datganiad Cyfrifon 2018/19 mewn cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor Sir heddiw. Roedd swyddogion o SAC yn bresennol ac wedi cyflwyno ac egluro canfyddiadau eu harchwiliad i'r Pwyllgor. Roedd swyddogion cyllid wedi darparu diweddariad ar gynnydd o ran y cyfrifon drafft a oedd wedi'u hystyried yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio. Adolygwyd y diwygiadau i'r Datganiad Cyfrifon ac nid oedd unrhyw ddiwygiadau pellach ers cytuno ar y drafft. I gloi, cynigiodd y Cynghorydd Dolphin yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.

Wrth eilio'r cynnig, talodd y Cynghorydd Glyn Banks deyrnged i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i Dîm am eu gwaith caled, a dymunodd yn dda iddynt gyda llwyddiant yr ymarfer a gynlluniwyd yn 2019-20 ar gyfer llunio'r datganiadau cyllidol drafft erbyn 31 Mai 2020. Diolchodd hefyd i Dîm SAC am eu gwaith caled a'u cymorth.

Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i bawb dan sylw am lwyddo i gwblhau'r gwaith ar Ddatganiad Cyfrifon 2018/19. Gofynnodd i Aelodau bleidleisio ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ac yn dilyn y bleidlais, fe gafodd yr argymhellion eu derbyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2018/19;
- (b) Cymeradwyo Llythyr Sylwadau – Cyngor Sir y Fflint; a
- (c) Nodi'r Wybodaeth Ariannol Ychwanegol i Ddatganiad Cyfrifon 2018/19.

#### **40. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: CADARNHAU CHWILIAD ARDALOEDD LLEOL AR GYFER YNNI ADNEWYDDADWY**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad i gadarnhau cwmpas ardaloedd chwilio lleol ar gyfer ynni adnewyddadwy Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint ar fap cynigion, i ffurfio rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun i gychwyn 30 Medi 2019.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at gymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Sir y Fflint (CDLI) yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 23 Gorffennaf 2019, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd mis Medi. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod, dywedodd nad oedd y rhan o'r CDLI ar Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy wedi cael ei chynnwys yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf gan nad oedd y gwaith wedi'i gwblhau eto. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru (LIC) yn gofyn i'r Cyngor lunio adran yn y CDLI ar y mater pwysig hwn i gynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni ei tharged i gynhyrchu 70% o'r trydan yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Mae'r elfen hon o'r CDLI wedi'i chwblhau erbyn hyn, ac fe'i cyflwynir i'w chymeradwyo yn dilyn chwiliad cynhwysfawr i ganfod tir o fewn y Sir i ddarparu ffermydd gwynt neu ffermydd solar i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bithell at leoliad Sir y Fflint a'r cyfyngiadau naturiol o ran dyrannu tir ar gyfer ffermydd gwynt mawr, ond dywedodd fod mwy o gyfleoedd i ddyrannu tir ar gyfer ffermydd solar, a chyfeiriodd at y ddarpariaeth bresennol yn Sir y Fflint ynghyd â datblygiadau newydd. Cynigiodd y Cynghorydd Bithell yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

Darparodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) wybodaeth gefndirol ac eglurodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ganfod Ardal Chwilio. Rhoddodd gyflwyniad ar y broses a oedd yn cynnwys y prif bwyntiau a ganlyn:

- pwrpas



- beth yw Ardaloedd Chwilio, a'r hyn nad ydynt?
- y potensial o ran ffermydd gwynt
- y potensial o ran ffermydd solar
- Ardaloedd chwilio Lleol Solar PV

Diolchodd y Cynghorydd Mike Peers i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu hymroddiad a'u gwaith caled o ran cwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer y CDLI, ac am adroddiad cynhwysfawr a llawn gwybodaeth a oedd yn dangos pa mor drylwyr oedd chwiliad y Sir. Eiliodd y Cynghorydd Peers gynnig y Cynghorydd Bithell.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Patrick Heesom, cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y CDLI oedd 30 Medi i 11 Tachwedd 2019.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Paul Johnson o ran Gwastadeddau ac SSI Holway ac ynghyd â'i gais y dylid eu dileu o'r CDLI arfaethedig, cytunodd y Prif Weithredwr i drafod y materion gyda'r Cynghorydd Johnson cyn cyflwyno'r CDLI ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Williams a oedd pŵer trydan dŵr wedi cael ei archwilio o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y gyfarwyddeb yn canolbwyntio ar bŵer gwynt a solar, fodd bynnag, roedd yr Awdurdod bob amser yn edrych ar y potensial o ran adnoddau adnewyddadwy eraill, a dywedodd fod cynllun trydan dŵr bach wedi'i gynllunio ar gyfer Cei Connah.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Ardaloedd Chwilio Lleol Dangosol ar gyfer ynni adnewyddadwy sydd i'w dangos ar y map cynigion a'r polisi cysylltiedig sydd i'w gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLI Adneuo;
- (b) Cymeradwyo'r diwygiadau i bolisi EN13 Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel y CDLI Adneuo a amlygwyd yn yr adroddiad hwn; ac
- (c) Awdurdodi'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Economi a'r Amgylchedd) i wneud unrhyw fân newidiadau ychwanegol o ran geirio, gramadeg, rhai golygyddol, neu gartograffig i'r CDLI Adneuo, a fydd efallai'n codi neu'n angenrheidiol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, i sicrhau cysondeb gyda sylfaen dystiolaeth barhaus y CDLI ac i gynorthwyo gyda chyflwyno'r Cynllun yn derfynol.

## **41. PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad i ofyn i'r Cyngor ystyried penodi'r ymgeisydd a ffeirir ar gyfer y sedd Aelod Lleyg wag ar y Pwyllgor Archwilio.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyngor, yn y Cyfarfod Blyneddol, wedi penderfynu penodi aelod lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio. Cafwyd pedwar ymgeisydd, ac yn dilyn cyfweiliad, argymhellwyd y dylid penodi Allan Rainford. Darparodd wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at grynodedeb o yrfa Allan Rainford a atodwyd i'r adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y byddai sgiliau a phrofiad Mr Rainford o fudd mawr i'r Pwyllgor ac roedd yn argymhell yn gryf y dylid ei benodi fel yr aelod lleyg newydd i'r Pwyllgor Archwilio. Eiliodd y Cynghorydd Marion Bateman y cynnig. Derbyniwyd yr argymhelliad drwy bleidlais.

### **PENDERFYNWYD:**

Penodi Allan Rainford i'r Pwyllgor Archwilio hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023.

#### **42. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

#### **43. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

#### **44. RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig a ganlyn:

Ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talksuicide prevention campaign –  
Y Cynghorydd Ian Roberts

'Mae'r Awdurdod hwn yn cefnogi'r ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talksuicide prevention campaign a bydd yn gweithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol ar draws cymunedau Sir y Fflint, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol.

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod ein rôl hanfodol mewn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater hwn.

Dylai annog llesiant meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, addysg a diogelwch cymunedol a chynllunio.

Trwy ei holl waith, bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo iechyd meddwl ar sail unigol a strategol.

Er gwybodaeth, lansiodd ymgyrch #IPledge2Talk yn y Senedd ddau fis yn ôl gan Eluned Morgan, ar y cyd â Mind Cymru'.

Wrth gyflwyno'r Cynnig, siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts am ofid a hiraeth teuluoedd a oedd wedi profi marwolaeth aelod teulu trwy hunanladdiad. Soniodd am yr effaith parhaol a dinistriol ar y teuluoedd hynny ynghyd â'r boen a'r tristwch a deimlwyd, a dywedodd ei fod yn anodd dychmygu dioddefaint ac anobaith unigolion a oedd yn ystyried mai hunanladdiad yw'r unig gam y gellir ei gymryd ganddynt.

Dyweddod y Cynghorydd Roberts fod Jack Sargeant, Aelod Cynulliad, a'i deulu, yn llwyr gefnogi'r ymgyrch ac yn annog pobl eraill i addo eu cefnogaeth hefyd. Aeth y Cynghorydd Roberts ati i ddarllen yr ymrwymadau i ddarparu help a chymorth yn yr Addewid, a gofynnodd i'r Aelodau gefnogi'r Cynnig.

Dyweddod y Cynghorydd Glyn Banks ei fod yn llwyr gefnogi'r ymgyrch, a diolchodd i'r Cynghorydd Roberts am ddod â'r cynnig gerbron y Cyngor. Roedd yn annog pobl sydd mewn trafferthion i "ddweud eu dweud" ac i ofyn am help, a soniodd am yr angen i fod yn 'ffrind' i eraill ac i gynnig help a chefnogaeth lle y bo angen. Eiliodd y Cynghorydd Banks y Cynnig.

Siaradodd y Cynghorydd Kevin Hughes am ei gefnogaeth i'r ymgyrch, a phwysleisiodd bwysigrwydd gofyn am help a chefnogaeth yn gynnar i atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu i fod yn hunanladdiad.

Dyweddod y Prif Weithredwr ei fod ef a'i gyd-swyddogion yn llwyr gefnogi'r ymgyrch, a chyfeiriodd at ddyletswydd gofal yr Awdurdod tuag at weithwyr, a dyweddod fod mentrau ar waith i gefnogi gweithwyr.

Derbyniwyd y Cynnig.

#### **PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts o ran yr Ymgyrch Atal Hunanladdiad #IPledge2Talk Suicide Prevention Campaign.

#### **45. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.30 pm)

.....  
**Cadeirydd**